



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

**RHIFYN 4** - Gorffennaf / Awst 2016





## RHESTRAU O FATHAU A ARGYMHELLIR O LASWELT A MEILLION

Darganfyddwch lle gallwch  
gael mwy o wybodaeth  
ynghŷn â'r mathau glaswellt a  
meillion gorau sydd ar gael.



## RHWYDWAITH ARDDANGOS

### GLYNLLIFON

Yn y rhifyn hwn - bydd  
Coleg Meirion-Dwyfor  
Glynllifon yn trafod   
eu prosiect newydd -   
gwerthuso perfformiad a  
chynhyrchiant moch Pedigri  
Cymreig a Chroesfrid.



Tudalen 9.  
Swyddog Technegol  
**Gwawr Hughes**



Tudalen 12.  
**Digwyddiadau**  
Beth sy'n mynd ymlaen  
yn eich ardal chi...

## CYFLWYNIAD



CROESO i bedwerydd rhifyn cyhoeddiad technegol Cyswllt Ffermio i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru.

Mae ffermwyr wedi gallu manteisio ar amodau mwy ffafriol y gwanwyn hwn er mwyn cychwyn ar y tymor cynaeafu a sicrhau bod ŵyn a da byw yn tyfu'n dda. Wrth ddechrau meddwl am wella cynhyrchiant, rydym yn amlygu prosiectau o'n Rhwydwaith Arddangos, megis defnyddio technoleg awtomatig i wella'r modd y canfyddir buchod sy'n gofyn tarw yn y fuches sugno. Mae'r seilwaith pori ar Fferm Arddangos Ilaeth yn cael ei ddiweddarau er mwyn sicrhau'r cynnyrch Ilaeth gorau o borthiant, ac ar un o'n Safleoedd Arloesedd, mae dau brosiect yn anelu at gynyddu proffidoldeb cynhyrchu moch a gwerthuso perfformiad moch Cymreig pedigri o'u cymharu â bridiau croes.

Gobeithiwn y bydd y cyhoeddiad technegol yn cynnig cip cyffredinol i chi ar agweddau technegol y prosiect, gan roi cyfle i chi weld y wybodaeth ddiweddaraf er budd eich busnes.

**Yr Athro E. Wynne Jones**

Cadeirydd Bwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

## Cyswllt Ffermio

- rhaglen gefnogaeth newydd, estynedig i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru.

Cofrestrwch ar gyfer y rhaglen newydd heddiw!

08456 000 813

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-gofrestru-cyswllt-ffermio>

## Fferm Arddangos Moor Farm – Seilwaith Pori

Tair ffactor bwysig sy'n effeithio ar effeithlonrwydd seilwaith pori ar ffermydd Ilaeth yw ffyrdd wedi eu cynllunio'n dda, padogau cyfartal o ran maint a system ddŵr ddigonol.

Dyna oedd y negeseuon allweddol mewn diwrnod agored ar Safle Arddangos Cyswllt Ffermio ar Moor Farm, ger Hwlfordd, Sir Benfro, lle mae llwybrau gwartheg newydd yn cael eu gosod a'r system ddŵr yn cael ei diweddarau. Mae'r ffermwr, Andrew Rees, yn gobeithio gwella'r defnydd o laswellt ar y fferm 370 erw a chynyddu'r cyfnod pori ar gyfer y fuches o 240 o fuchod Friesian Prydeinig sy'n lloea yn y gwanwyn. Dywedodd Andrew: "Wrth i'r fferm a'r fuches dyfu dros y blynyddoedd, mae wedi mynd yn anos cael mynediad at y glaswellt i gyd. Trwy gael mwy o ffyrdd fe allem gael y gwartheg allan yn gynharach yn y tymor i wneud y defnydd gorau o'r glaswellt."

Mae'r seilwaith presennol, gan gynnwys yr holl lwybrau, gwrychoedd, ffensys, draeniau, polion, cafnau dŵr a therfynau'r buarth wedi eu mapio trwy GPS gan y cwmni Gwyddelig Grasstech, gan greu map cywir o bob cae. Mae'r cynlluniau ar gyfer y seilwaith newydd wedi cael eu llunio. "Y prif bwyntiau i'w hystyried ar gyfer prosiect fel hyn yw sut i gael y buchod o'r buarth allan i bori mor effeithlon â phosibl, a sicrhau bod yr adnoddau yn eu lle iddynt wneud y defnydd gorau o'r glaswellt pan fyddan nhw wedi cyrraedd." meddai Bertie Troy, o Grasstech wrth y ffermwyr.

### LLWYBRAU

Dylai llwybrau ffermydd gael eu cynllunio i sicrhau bod y buchod yn symud rhwng y parlwr a'r padogau mor effeithlon â phosibl. Wrth ystyried bod cyflymder cerdded buwch ar gyfartaledd yn 1.5 mya, dylai'r llwybrau annog llif y gwartheg trwy osgoi troadau gormodol a dylent fod yn 4-5 metr o led. Dylai'r llwybrau gael eu hadeiladu gydag o leiaf 9-12 modfedd o ddeunydd seiliau caled a 1.5-2.5 modfedd o ddeunydd mân, heb unrhyw gerrig mân ar yr arwyneb yn fwy na 5 i 6mm.

Argymhellir rhediad dŵr o rhwng 1:15 i 1:20 i gael gwared ar ddŵr oddi ar yr arwyneb a dylid cael nifer o fannau mynediad ar y llwybrau.

### PADOGAU

Dylai padogau pori fod yn gymharol gyfartal o ran maint, gyda gwifrau yn rhedeg yn gyfochrog i'w

rhannu yn haws. Yr allwedd i wella'r defnydd o laswellt yw cael cyfradd stocio addas yn seiliedig ar y nifer o anifeiliaid wedi ei rannu gyda'r nifer o hectarau sydd ar gael.

"Cyfraddau stocio sy'n arwain penderfyniadau wrth ddylunio seilwaith," ychwanegodd Mr Troy. "Mae'r gyfradd gywir yn dibynnu ar faint o laswellt y gall y fferm ei dyfu a'r math o bridd."

Er mwyn cyfrifo maint y padogau, lluoswch y nifer o fuchod (A) wrth y dyraniad Deunydd Sych (DM) y dydd (B). Rhannwch hyn â'r gorchudd glaswellt yn y padog (C) i bennu maint y padog.  $A \times B / C =$  maint y padog mewn hectarau. Mae hyn yn seiliedig ar ddyraniad am 24 awr. Am ddyraniad ar gyfer 36 awr, lluoswch ag 1.5.

### SYSTEM DDŴR

Yr ystyriaeth olaf wrth gynllunio seilwaith pori yw'r ddarpariaeth ddŵr. Gyda gofyn dyddiol am 80 litr i bob buwch, 50% ohono yn cael ei yfed cyn pen tair awr ar ôl godro fin nos, gellir cyfrifo'r llif bob awr gofynnol ar gyfer pob buwch:  $80 \times 0.5 / 3 = 13$  litr/y fuwch/yr awr.

Cyfradd llif y fuches bob awr:  $13 \times$  nifer o fuchod (100) = 1,300 litr/yr awr

Cyfradd llif y fuches bob munud:  $13 \times$  nifer o fuchod (100) / 60 = 21.6 litr/y munud

Cael pwmp digon mawr ar gyfer y system ddŵr gyfan yw'r ystyriaeth bwysicaf, ac yna maint y bibell, yna maint y cafnau dŵr. Dylid gosod y cafnau dŵr hanner ffordd ar hyd y padogau gan adael i 2.5% o'r fuches gael mynediad atynt ar unrhyw adeg. Tanciau crwn sy'n rhoi'r hyd fwyaf o ymyl ar gyfer maint y cafn ac mae system gylchol yn rhoi pwysedd a llif mwy cyson.





## GLYNLLIFON

**Coleg amaethyddol yw Coleg Meirion-Dwyfor Glynllifon ar arfordir gorllewinol Cymru ger Caernarfon, sy'n rhan o rwydwaith coleg Grŵp Llandrillo-Menai. Mae'r coleg yn rhedeg system dda byw gymysg ar 300 erw o dir amaethyddol a choetir, ac mae'n awr yn Safle Arloesedd Cyswllt Ffermio.**

Ynghyd â defaid, gwartheg biff a mentrau llaeth mae uned foch 40 hwch, y bu buddsoddi mawr ynddi yn ddiweddar, gyda siediau newydd modern sydd wedi eu hinswleiddio yn llawn a'r hinsawdd yn cael ei rheoli yno, i sicrhau bod y moch yn perfformio ar eu gorau trwy gydol y flwyddyn. Mae'n cynnwys lloeriau delltlog a systemau porthi awtomatig blaengar. Mae'r adeiladau newydd yn cael eu stocio gydag 20 o hychod Cymreig Pedigri ac 20 Croesfrid.

Cynhelir prosiect Safle Arloesedd tymor hir yn gwerthuso perfformiad a chynhyrchiant moch Pedigri Cymreig a Chroesfrid yn y cyfleusterau newydd yng Nglynllifon. Gyda'r gofynion am garcas meinach a'r ymglyrch i ddwysau rhagor yn y diwydiant moch ym Mhrydain, rhaid i'r Moch Cymreig pedigri gystadlu gyda moch croesfrid mwy poblogaidd. O ganlyniad, cyhoeddwyd bod moch Cymreig Pedigri yn frid prin yn 2005, ond mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol o ganlyniad i ansawdd gwell y cig a'r blas gwell.

Trwy gofnodi a chasglu data yn barhaus, nod y prosiect yw dynodi unrhyw amrywiadau o ran perfformiad a chynhyrchiant y ddau fath, yn ogystal â hyfywedd ariannol cynhyrchu moch Cymreig Pedigri mewn lleoliad masnachol.

Mae Gwawr Hughes, Swyddog Technegol Moch a Dofednod Cyswllt Ffermio yn gweithio gyda Choleg Glynllifon ar y prosiect. Dywedodd: "Bydd technoleg EID yn cael ei


defnyddio i gofnodi a chasglu data ar nifer o baramedrau allweddol yn y ddau frid gan gynnwys perfformiad cyn diddyfnu, cynnydd mewn pwysau byw ac effeithlonrwydd wrth drosti porthiant, yn ogystal â dyddiau hyd eu lladd a phwysau'r carcass. Bydd unrhyw broblemau iechyd a geni hefyd yn cael eu nodi. Er mwyn pennu effeithlonrwydd cynhyrchu'r ddau frid, bydd cost cynhyrchu am bob kilogram o bwysau ar y bach yn cael eu cyfrifo ar gyfer y ddau fath."

Nod y prosiect yw ymdrin ag unrhyw ddiffygion o ran perfformiad yn y mochyn Cymreig pedigri a bydd y data a gesglir yn cynnig sylfaen ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, a all mae'n debyg gynnwys gwaith bridio a genetig.

Yn rhedeg yn gyfochrog â'r prosiect tymor hir mae prosiect arall sy'n dadansoddi effaith y brechiad Improvac ar les, perfformiad ac ansawdd cig baeddod cyfan. Mae bod yn ymosodol, neidio a brathu cynffonau yn broblem mewn baeddod heb eu torri ar ôl oed aeddfedrwydd, a all arwain at safonau isel o ran lles, yn ogystal â difrod i'r carcass a'i gondemnio. Gall difwyniad baedd hefyd fod yn broblem gyda baeddod heb eu torri. Aroglau neu flas drwg yw difwyniad baedd sy'n dod yn amlwg wrth goginio neu fwyta porc, a gall effeithio ar hyd at 75% o'r prynwyr. Fe'i hachosir gan gasgliad o ddwy elfen sy'n bresennol ym mrastrer moch gwryw.

Ychwanegodd Gwawr: "Yn ogystal â lleihau'r risg y bydd y cig yn cael ei ddifwyno, gall cynhyrchwyr gasglu'r manteision o ran perfformiad, iechyd ac ansawdd carcass o fagu moch gwryw fel baeddod heb eu torri am y rhan fwyaf o'r cyfnod pesgi."

Gall costau brechu moch gwryw gael ei gydbwysu gan ostyngiad yn y costau



cynhyrchu trwy orffen y moch bump i saith niwrnod yn gynharach gan arwain at gostau is am borthiant, gwell effeithlonrwydd o ran porthiant a mwy o gynnydd dyddiol yn eu pwysau mewn cymhariaeth â moch wedi torri arnynt, yn ogystal â gwell ansawdd i'r cig.

Yn flynyddol bydd 80 mochyn gwryw o faint a phwysau tebyg yn cael eu dyrannu i'r prosiect, a'u rhannu yn ddau grŵp wrth diddyfnu. Bydd un grŵp yn cael ei drin gyda brechlyn yn 10 ac 16 wythnos oed, tra bydd yr ail grŵp yn cael ei adael heb ei drin. Bydd y ddau grŵp yn cael eu porthi ar yr un diet a'u rheoli yn yr un modd. Bydd yr holl foch yn cael eu pwysu bob pythefnos o 10 hyd 20 wythnos er mwyn monitro'r cynnydd yn eu pwysau. Bydd y dyddiau hyd eu lladd a phwysau'r carcass hefyd yn cael eu cofnodi. Bydd eu hansawdd o ran bwyta cig yn cael ei ddadansoddi yn y Ganolfan Dechnoleg Bwyd yn Llangefni.

Bydd y moch yn cael eu monitro yn ofalus am unrhyw ymddygiad ymosodol a bydd unrhyw grafiadau, briwiau neu achlysuron o frathu cynffonau yn cael eu cofnodi trwy gydol y prosiect. Yn ystod tair blynedd y prosiect ei nod yw dynodi manteision posibl defnyddio'r brechlyn mewn cefnffontiau o foch i wella lles, effeithlonrwydd cynhyrchu ac ansawdd cig moch wedi eu trin.

Nod y safle arloesedd yng Nglynllifon yw cynnig lleoliad arloesol i gynhyrchwyr moch yng Nghymru ymweld ag o a dysgu rhagor am dechnolegau a dulliau newydd sydd ar gael i'r diwydiant. Bydd prosiectau gyda'r fuches wartheg biff hefyd yn cael eu trefnu yng Nglynllifon.

Bydd diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'r prosiect hwn ar gael ar ein gwefan [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)





# Cae Haidd

## DEFNYDDIO TECHNOLEG AUTOMATAIDD I WELLA'R MODD Y CANFYDDIR BUCHOD SY'N GOFYN TARW YN Y FUCHES SUGNO.

Gydag elw gros o £650 y fuwch, mae buches fagu Cae Haidd yn perfformio'n dda mewn cymhariaeth â buches sugno arferol ar fferm yr ucheldir yn ôl yr arolwg busnes fferm sy'n nodi elw gros o £350 i bob buwch. Er gwaethaf hyn, mae Paul yn ymwybodol iawn bod lle i wella effeithlonrwydd a phroffidoldeb ymhellach yn y system. Un dangosydd perfformiad allweddol yr oedd yn awyddus i'w wella oedd mynegai lloea ei fuches, gan fod hyn yn un o'r prif ffactorau sy'n arwain proffidoldeb yn unrhyw fuches sugno.

Gyda llawer o ffactorau yn effeithio ar ffrwythlondeb buchod, dewisodd Paul ganfod y buchod sy'n gofyn tarw i ymchwilio iddo i gychwyn, gan ddefnyddio technoleg awtomataidd. Gosodwyd coleri synhwyro symudiad ar yr holl fuchod oedd yn monitro ymddygiad y fuwch yn barhaus. Gyda'r system benodol hon, roedd tair ffactor yn cael eu mesur a'u monitro; Gweithgaredd, Amser Porthi a Chnoi Cil. Mae'r cyfnod gofyn tarw yn cael ei ragweld pan fydd gweithgaredd yn cynyddu ac amser porthi a chnoi cil yn lleihau heibio trothwy penodol ar gyfer yr anifail hwnnw. Ar ôl i'r system ragweld bod y fuwch yn gofyn tarw caiff y ffermwr wybod trwy

neges testun awtomatig ac e-bost.

*'Roedd rhai achlysuron pan oeddwn i'n teimlo'n ffŵl yn ffonio'r AI, gan nad oedd unrhyw arwyddion gweladwy bod y fuwch yn gofyn tarw. Roedd yn dipyn o ryddhad pan wnaeth fy sicrhau eu bod yn gofyn tarw mewn gwirionedd.'*

Er mai prif ddiben y system yw canfod buchod sy'n gofyn tarw, mae'r data a gasglwyd wedi rhoi gwybodaeth arall ddefnyddiol i Paul. Yn dilyn rhai dyddiau o gasglu data, daeth yn amlwg nad oedd rhai o'r anifeiliaid yn treulio cymaint o amser yn bwyta ac wedyn yn cnoi cil mewn cymhariaeth â mwyafrif y buchod. Daeth yn amlwg bod Sgôr Cyflwr Corff y buchod yma hefyd yn is na'r cyfartaledd, felly fe wnaeth Paul ffonio ei filfeddyg lleol i ymchwilio i'r mater. Roedd y gwartheg i gyd yn dda eu hiechyd, felly roedd bwlio yn cael ei ystyried yn esboniad posibl am eu hymddygiad, er bod digonedd o le wrth y cafnau yn y sied. Fe wahanwyd yr anifeiliaid yma o'r prif grŵp wedyn, a dros nos fe wnaeth eu hamser bwyta a chnoi cil ddyblu bron. Mae hyn wedi cymell Paul i newid patrwm ei sied ychydig ar gyfer y flwyddyn nesaf iddo fedru gwahanu'r buchod yn rhagor o grwpiau i gael Sgôr Cyflwr Corff mwy cyson ar draws y fuches.

## Rhestrau o fathau a argymhellir o laswellt a meillion

Mae ail-hadu glaswelltir yn hanfodol i wella ansawdd porthiant ac mae'n helpu i gynyddu effeithlonrwydd defnyddio gwrtaith. Dylai glaswelltir wedi ei wella gael ei ail-hadu pan fydd llai na 50% o'r rhywogaethau sydd wedi eu hau ar ôl yn y gwndwn. Mae'r dewis o laswelltau a meillion a ddefnyddir yn y gymysgedd hadau yn dibynnu ar y rôl y byddant yn ei chwarae yn y system da byw; bydd gwndwn silwair tymor byr yn wahanol iawn i wndwn pori defaid tymor hir. Beth bynnag yw diben y gwndwn dylai pob penderfyniad am ddewis y mathau addas fod yn seiliedig ar wybodaeth yn y Rhestr Laswelltau a Meillion a Argymhellir ar gyfer Cymru a Lloegr a gyhoeddwyd ym Mehefin 2016. Profwyd yr holl fathau sy'n ymddangos ar y rhestr hon yn annibynnol dan drefniadau caeth yn unol â pholisïr llywodraeth ar amaethyddiaeth sy'n gynaliadwy yn economaidd ac amgylcheddol. Ar gyfer ffermwyr yn Iwerddon, yr Alban a Gogledd Iwerddon mae rhestrau ar wahân penodol i'r ardal.

Ariennir y profi ar y mathau a argymhellir ar y rhestr i Gymru a Lloegr gan Gymdeithas Bridwyr Planhigion Prydain (BSPB), y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Hybu Cig Cymru (HCC). Ar y rhestr cewch wybodaeth fanwl am nodweddion a pherfformiad pob math, fel cynnyrch tymhorol, ansawdd a dyddiadau blodeuo. Mae'r rhestrau

glaswellt yn cynnwys dyddiadau blodeuo cynnar, canolig a hwyr ar gyfer mathau diploid a thetraploid. Mynegir y data cynnyrch ar gyfer cadwraeth a phori yn ystod y tymor tyfu fel canran o'r cyfartaledd ar gyfer y mathau glaswellt ar y rhestr a argymhellir. Disgrifir mathau o feillion gwyn yn ôl maint y ddeilen ac maent yn cael eu hasesu dan diddeilio caled neu ysgafn ar gyfer gorchuddio'r ddaear yn y gwanwyn a'r hydref. Mae hyn i sicrhau na fydd mathau gwell yn cael eu hanghofio oherwydd rheolaeth anaddas ar faint eu dail a'u harferion tyfu.

Mae'r rhestr ar gyfer Cymru a Lloegr ar gael ar-lein yn <http://www.britishgrassland.com/page/recommended-grass-and-clover-lists>. Mae'n cynnwys llawlyfr i ffermwyr a fersiwn gyda manylion mwy technegol i werthwyr. Mae gan AHDB gyfleuster rhyngweithiol ar eu gwefan sy'n rhoi cyfle i gymharu mathau. <http://dairy.ahdb.org.uk/technical-information/grassland-management/recommended-grass-and-clover-list>

Gan ei bod yn costio £450/ha yn ôl yr amcangyfrif i ail-hadu glaswelltir mae'n bwysig manteisio ar rinweddau'r mathau gorau o laswellt a meillion. Dylid seilio'r dewis ar wybodaeth o restrau a argymhellir ac oni bai bod rhesymau da (er enghraifft, efallai na fydd hadau organig ar gyfer rhai mathau ar gael) dylai pob math sy'n cael ei gynnwys mewn cymysgedd hadau glaswelltir ymddangos ar y rhestrau o laswelltau a meillion a argymhellir.





Whitecastle Vineyard, Abergavenny



Maengwynedd Log Cabins, Llanrhaeadr ym Mochnant

## Digwyddiadau agored arallgyfeirio

Mae cyfres o ddigwyddiadau ar fferm wedi cynnig amrywiaeth o syniadau arallgyfeirio arloesol a allai atgyfnerthu busnesau fferm a choedwigaeth.

Gyda phob sector ym myd amaeth yn wynebu anawsterau, mae arallgyfeirio yn cynnig ffrwd incwm arall, yn ogystal â ffordd o gynyddu proffidioldeb a chynaliadwydd busnes presennol. Mae ynni adnewyddadwy wedi bod yn opsiwn arallgyfeirio poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf, ond wrth i dariffau cyflenwi trydan leihau, mae meysydd eraill wedi dod yn fwy amlwg, megis yn y sector hamdden a thwristiaeth ac eco-dwristiaeth lle bod ynni adnewyddadwy'n cael ei ddefnyddio i bweru cyfleusterau twristiaeth ar fferm, ynghyd â chamu i mewn i farchnadoedd ar gyfer cynnyrch bwyd a diod.

Roedd Jeremy Bowen-Rees o gwmni Landsker Business Solutions yn un o'r siaradwyr yn y digwyddiadau, a oedd yn hybu arfer dda wrth sefydlu prosiect arallgyfeirio llwyddiannus.

*"Mae nifer o bobl yn rhuthro i mewn i arallgyfeirio heb ystyried popeth sydd angen ei wneud er mwyn gwneud penderfyniad deallus ynglŷn â'r hyn fydd yn gweithio," meddai Mr Bowen-Rees. "Weithiau mae pobl yn gwneud camgymeriadau enfawr sydd nid yn unig yn peryglu'r hyn y maent yn ei wneud er mwyn sefydlu'r prosiect*

*arallgyfeirio, ond hefyd yn effeithio ar y busnes fferm greiddiol."*

*"Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i bobl gael ychydig o arweiniad i'w cynorthwyo i wneud penderfyniad deallus, ac roeddent hefyd yn berthnasol i'r rheini sydd eisoes wedi arallgyfeirio er mwyn rhannu eu profiadau a'u harfer dda gydag eraill, gan ddysgu gan rai sydd wedi arallgyfeirio eu busnesau eu hunain yn llwyddiannus."*

Cafodd y rhai a oedd yn bresennol eu hannog i ddatblygu cynllun busnes strategol a defnyddio sgiliau a chryfderau presennol pobl o fewn y busnes i ychwanegu gwerth a hirhoedledd i brosiect arallgyfeirio. Mae ymchwil i'r farchnad a threialu syniadau hefyd yn allweddol ar gyfer cychwyn busnes llwyddiannus.

Cynhaliwyd y digwyddiadau ar fferm Maes Farm, Maengwynedd, Llanrhaeadr ym Mochnant, lle mae'r fferm deuluol wedi arallgyfeirio i drydan dŵr, biomas a chabannau gwyliau pren, ac yng Ngwinllan Whitecastle, Llanvetherine, Y Fenni, lle mae Robb a Nicola Merchant wedi arallgyfeirio eu tyddyn a'i drawsnewid yn winllan o fri.

## Swyddogion Technegol

Mae wyth swyddog technegol yn darparu arbenigedd penodol i'r sector wrth ddatblygu a gweithredu treialon ar gyfer rhwydwaith safleoedd arloesedd, arddangos a ffocws Cyswllt Ffermio ynghyd â gweithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth eraill. Bydd pob rhifyn yn canolbwyntio ar swyddog technegol gwahanol.



### Gwawr Llewelyn Hughes - Swyddog Technegol Moch a Dofednod

Cafodd Gwawr ei geni a'i magu ar y fferm fynydd biff a defaid deuluol yn Eryri, ond mae bellach yn byw gyda'i phartner a'u mab ifanc ym Mhen Llŷn. Bu Gwawr yn rhagori mewn cystadlaethau barnu stoc y Ffermwyr Ifanc yn cynrychioli Eryri. Mae hefyd yn cadw ei diadell o ddefaid Mynydd

Cymreig Duon pedigri sydd wedi ennill lluo o wobrau, ac yn eu bridio i'w harddangos mewn sioeau amaethyddol yn yr haf ac mewn arwerthiannau cymdeithas yn ystod yr hydref.

Graddiodd Gwawr o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd BSc anrhydedd mewn Amaethyddiaeth a Rheolaeth Cefn Gwlad yn 2012.

Wedi iddi gwblhau ei chwrs gradd, dechreuodd Gwawr weithio fel Swyddog Trosglwyddo Gwybodaeth gyda Cyswllt Ffermio, yn teithio ledled Cymru ac yn cynhyrchu adroddiadau technegol yn seiliedig ar gyngor arbenigol. Mae Gwawr hefyd wedi gweithio fel Cydlynnydd Amaeth ar ran Cyswllt Ffermio.

Yn ddiweddar, penodwyd Gwawr yn Swyddog Technegol ar gyfer moch a dofednod, ac mae'n awyddus i ddarparu'r wybodaeth a'r argymhellion diweddaraf ar gyfer y ddau sector.

### Meysydd arbenigedd Gwawr:

- ➡ Gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a chynnal lefel uchel o iechyd a lles
- ➡ Cynyddu elw ariannol trwy wneud newidiadau bychain i systemau presennol
- ➡ Cynyddu gwytnwch yn y ddau sector
- ➡ Ehangu'r diwydiannau yng Nghymru trwy ddangos yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig fel ffynhonnell incwm ychwanegol i ffermwyr eraill



# Gweithgaredd Cyswllt Ffermio yn y Sioe Frenhinol

Eleni, bydd gan Cyswllt Ffermio bresenoldeb mwy nag erioed yn y Sioe Frenhinol, gan roi mwy o gyfle eto i bobl ddysgu rhagor am y gwasanaethau a gynigir.

Un nodwedd newydd sbon ar gyfer Sioe Frenhinol 2016 yw'r arddangosfa Labordy Amaeth. Bydd ar falconi Adeilad Defaid Meirionnydd, ac yn dangos y datblygiadau diweddaraf ym myd amaeth a choedwigaeth a allai drawsnewid y ffordd y bydd pobl yn gweithio yn y dyfodol.

Ymhlith y dyfeisiadau arloesol fydd yn cael sylw yn yr arddangosfa yn y sioe bydd y rap silwair bwytdwy cyntaf a'r datblygiadau diweddaraf o ran robotiaid godro.

Y dyfeisiadau yn yr arddangosfa yw rhai o'r rhai cyntaf i gael eu dynodi fel technolegau a allai gael effaith sylweddol ar amaethyddiaeth a choedwigaeth yn y dyfodol gan y fforwm Labordy Amaeth, sy'n cynnwys ffermwyr a choedwigwyr arloesol o Gymru. Mae'r Labordy Amaeth hefyd yn




cynnal gweithgareddau sy'n arddangos y dyfeisiadau diweddaraf ar waith ar ffermydd ac mewn coedwigoedd ac yn rhannu gwybodaeth am y datblygiadau technolegol diweddaraf.

Hefyd, am y tro cyntaf eleni, bydd Cyswllt Ffermio yn bresennol yn yr adran goedwigaeth, gan roi gwybodaeth i goedwigwyr, ffermwyr a pherchenogion coetiroedd am y manteision a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Bydd Swyddog Technegol Coedwigaeth Cyswllt Ffermio, Geraint Jones, a'r tîm wrth law i drafod cynnwys rheoli coetir mewn busnesau fferm, a all fod o fudd i berfformiad amgylcheddol amaethyddol. Gellir dynodi hefyd y gefnogaeth sydd ar gael i reoli a gwella coetir trwy eu rheoli yn ymarferol.

Yn Adeilad Lantra bydd cyfle i siarad â staff Cyswllt Ffermio am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael, o'r rhaglen drosglwyddo gwybodaeth a'r rhwydwaith arddangos, i'r gwasanaeth cynghori a'r rhaglen dysgu gydol oes a datblygu. Gall pobl hefyd gofrestru neu ailgofrestru eu busnes er mwyn cael holl wasanaethau Cyswllt Ffermio yma.

Yn ystod y sioe bydd mwy o fanylion hefyd am Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd Cymru a'r rhaglen Gyfnawid Rheolaeth newydd.



**Sioe Frenhinol Cymru**  
**18 -21 Gorffennaf 2016**

**Gatiau ar agor 8:00yb**

Maes y Sioe  
Llanelwedd, Builth Wells  
Powys, LD2 3SY

# DIGWYDDIADAU

## CYMORTHFEYDD ADOLYGU BUSNES

Datblygu, gweithredu a gwerthuso cynlluniau ar gyfer eich busnes gydag ymgynghorydd busnes profiadol i ehangu a chryfhau eich busnes. Os ydych chi wedi ysgrifennu eich cynllun busnes eich hun, gellir defnyddio'r gymhorthfa Adolygu Busnes i wirio a chymeradwyo'r cynllun busnes er mwyn cael mynediad at gynor technegol o dan y Gwasanaeth Cynghori.

Mae'r cymorthfeydd yn cael eu cynnal rhwng **9yb** a **5yp** - mae archebu lle yn hanfodol.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
05/09/2016	Mynwy
08/09/2016	Llandrindod
08/09/2016	Caerfyrddin
13/09/2016	Porthmadog
28/09/2016	Llanelwy

## CYMHORTHFA OLYNIAETH

I helpu teuluoedd fferm a choedwigaeth i ddysgu mwy am faterion yn ymwneud â chynllunio olyniaeth. Mae'r cymorthfeydd yn cael eu cynnal rhwng **9yb** a **5yp** - mae archebu lle yn hanfodol.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
22/08/2016	Machynlleth
09/09/2016	Doc Penfro
22/09/2016	Aberhonddu
22/09/2016	Llanrwst

## CYMORTHFEYDD CYNLLUNIO

Mae'r gymhorthfa'n cynnwys apwyntiad awr o hyd gydag ymgynghorydd cynllunio profiadol fydd yn cynnig cyngor i chi ynglŷn ag unrhyw syniadau neu gynlluniau adnewyddu a all fod gennych. Mae'r cymorthfeydd yn cael eu cynnal rhwng **9yb** a **5yp** - mae archebu lle yn hanfodol.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
14/09/2016	Y Drenewydd
15/09/2016	Yr Wyddgrug

## CYMORTHFEYDD TG

Yn ystod y gymhorthfa TG, cewch gyfle i dderbyn apwyntiad un-i-un gyda mentor TG profiadol i dderbyn cefnogaeth i wella eich sgiliau TG.

Mae'r cymorthfeydd yn cael eu cynnal rhwng **9yb** a **5yp** - mae archebu lle yn hanfodol.

DYDDIAD	LLEOLIAD (i'w gadarnau wrth sicrhau apwyntiad)
23/08/2016	Llambod
21/09/2016	Usk

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **Mali Griffith** - 01248 660074 - [mali.griffith@menterabusnes.co.uk](mailto:mali.griffith@menterabusnes.co.uk)